PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 20 | Mai 16, 2024 | 50c.




## SWPER YR APÊL FAWR YM MART CAERFYRDDIN

Daeth bron i 100 o bobl ynghyd i fwynhau swper £20 y pen yng nghaffi mart Caerfyrddin, gyda'r elw yn mynd tuag at Apêl yr Annibynwyr, Ffynhonnau Byw. Trefnwyd yr achlysur gan Gyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Jean Lewis, Tre-lech oedd yn gyfrifol am drefnu gwerthu'r tocynnau, gyda'r elw'n mynd fel rhan o gyfraniadau'r eglwysi unigol tuag at yr apêl, yn ôl nifer y tocynnau a werthwyd gan bob eglwys. Yn ogystal â chodi swm sylweddol, bu'n ddigwyddiad cymdeithasol hyfryd.

Cafodd y bwyd blasus dau gwrs ei baratoi gan staff Cegin Fach y Wlad, sy'n fwy cyfarwydd â bwydo ffermwyr fel arlwywyr caffi'r mart, yn ogystal â phobl mewn sawl man arall, gan gynnwys ambell gwrdd chwarter!





## Ysgrifennydd newydd Cytûn

Llongyfarchiadau mawr iawn i Dr Cynan Llwyd ar gael ei benodi yn Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn. Y mae hon yn swydd bwysig i hyrwyddo undod a chydweithredu rhwng y gwahanol draddodiadau Cristnogol yng Nghymru. Fel eglwysi rydym yn eithriadol o falch o'r penodiad ac yn dymuno yn dda iddo yn y gwaith. Byddwn yn gweddïo'n gyson drosto y bydd yr Arglwydd yn ei nerthu a'i arwain wrth gyflawni'r swydd hon. Dywedodd Cynan:



> Mae'n anrhydedd ac yn fraint cael fy mhenodi'n Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn. Edrychaf ymlaen at gydweithio gyda'r eglwysi yng Nghymru wrth i ni geisio ewyllys Duw gyda'n gilydd, i ni 'fod yn un fel dyn ni yn un.' (Ioan 17:22) Mae'n gyfnod cyffrous a heriol i ni fel eglwysi a gweddïaf y tyfwn yn agosach at Dduw ac at ein gilydd dros y cyfnod sydd i ddod.

Mae Cynan yn aelod a diacon yn eglwys Annibynnol Ebeneser, Caerdydd, ac yn un o arweinyddion Angor, Grangetown, sy'n cael ei noddi gan gynllun Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

*Mae rhagor am y penodiad hwn ar dudalen 3.*

# Pentecost: Yr Ysbryd Glân

Pan ’dan ni’n sôn am yr Ysbryd Glân sôn am Dduw yr ydan ni. Nid rhyw bŵer ar wahân i Dduw yw’r Ysbryd Glân, ond Duw yn gweithredu. Trwy’r Beibl mae Duw’n cael ei gyflwyno fel 3 pherson sy’n cydweithio yn berffaith â’i gilydd mewn cariad tragwyddol. Er ei fod yn anodd ei ddeall – pwy sydd yn deall Duw’n gyflawn – y mae Duw yn drindod. Duw y Tad, Duw y Mab a Duw yr Ysbryd Glân. Dyma ddywedir yng nghyffes fer yr Eglwys Bresbyteraidd:

> Credwn yn Nuw Dad Hollalluog, Creawdwr a Llywodraethwr pob peth. Credwn yn Iesu Grist, ei unig anedig Fab, ein Harglwydd a’n Gwaredwr. Trwy ei fywyd, ei farwolaeth ar y Groes a’i atgyfodiad, gorchfygodd bechod ac angau gan faddau inni ein pechodau a’n cymodi â Duw. Credwn yn yr Ysbryd Glân. Trwyddo Ef y mae Crist yn preswylio yn y credinwyr, gan eu sancteiddio yn y gwirionedd.

Gwelwn hyn yn adnodau cyntaf y Beibl. Yno dywedir:

> Ar y dechrau cyntaf, dyma Duw yn creu’r bydysawd a’r ddaear. Roedd y ddaear yn anhrefn gwag, ac roedd hi’n hollol dywyll dros y dŵr dwfn. Ond roedd Ysbryd Duw yn hofran dros wyneb y dŵr. A dwedodd Duw, ‘Dw i eisiau golau!’ a daeth golau i fod.
>
> Genesis 1: 1-3.

Yma cyflwynir tri pherson y Drindod. Duw y Tad yn creu, Duw yr Ysbryd yn dod a threfn. A Duw y mab, Gair Duw yn y geiriau, ‘A dywedodd Duw, “Dw i eisiau golau!”’

> Addolwn Dduw, ein Harglwydd mawr,
> mewn parch a chariad yma nawr;
> y Tri yn Un a’r Un yn Dri
> yw’r Arglwydd a addolwn ni.

### Actau 2

Nawr, fe ddaeth yr Ysbryd Glân mewn ffordd arbennig ar Sul y Pentecost fel yr addawyd gan y proffwydi ac Iesu Grist. Dywedodd y Proffwyd Joel fel hyn:

> Ar ôl hynny, bydda i’n tywallt fy Ysbryd ar y bobl i gyd.
> Bydd eich meibion a’ch merched yn proffwydo;
> bydd dynion hŷn yn cael breuddwydion,
> a dynion ifanc yn cael gweledigaethau.
> Bydda i hyd yn oed yn tywallt fy Ysbryd
> ar y gweision a’r morynion.
>
> (Joel 2: 28)

Ac fe ddywedodd Iesu y byddai’r Ysbryd Glân yn cael ei anfon at ei ddisgyblion ar ôl iddo Ef adael y ddaear. Meddai:

> ‘Yr wyf fi’n dweud y gwir wrthych: y mae’n fuddiol i chwi fy mod i’n mynd ymaith. Oherwydd os nad af, ni ddaw’r Eiriolwr atoch chwi. Ond os af, fe’i hanfonaf ef atoch.’
>
> (Ioan 16: 7)

### Sul y Pentecost

Ac ar Sul y Pentecost fe ddaeth yr Ysbryd Glân mewn grym anghyffredin er mwyn cymhwyso gwaith achubol yr Arglwydd Iesu. Dangosodd i’r disgyblion yn glir beth oedd arwyddocâd bywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu gan roi doniau arbennig iddynt i rannu’r newyddion da gydag eraill. A dyma sut mae Iesu gyda ni bob amser hyd ddiwedd y byd, trwy bresenoldeb yr Ysbryd. Nid ydym byth ar ein pennau ein hunain, nid ydym byth yn ddi-rym. Pan mae person yn credu yn Iesu y mae yn derbyn yr Ysbryd Glân. Nid rhai pobl sbesial ond pob un sy’n credu. Yn 1 Corinthiaid 6:19 mae Cristnogion yn cael eu disgrifio fel teml i Dduw oherwydd bod yr ysbryd Glân ynddynt.



**Dydd Sul, Mai 19eg, 2024 am 2.00**

## Tabernacl – Hendy-gwyn
## Oedfa i ddathlu
## 150 mlynedd

Pregethwr gwadd –
Parch. Dyfrig Rees

Croeso cynnes i bawb



**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

**Dyma gyfle i ymuno mewn cyfres o sesiynau fydd yn archwilio Addoli a Phregethu, ac yn eich arwain ar daith drwy’r Beibl.**

**Addoli a Phregethu**

Tiwtor: Parchedig Carwyn Siddall

Mae gwahanol fathau o addoliad, yn cynnwys addoliad pob oed, gwasanaethu mewn ysgolion, a gwasanaethau byr wrth ymweld ag aelwydydd. Mae cynnwys addoliad hefyd yn gallu amrywio, megis oedfa bregethu, oedfa pryd y gweinyddir un o’r sacramentau, neu oedfaon ar gyfer achlysur penodol megis priodas neu angladd.

Bydd y modiwl hwn yn rhoi cyfle i archilio’r amrywiol fathau, ac ystyried sut y dylid mynd ati i baratoi ac arwain oedfaon o wahanol fathau.

**Dyddiadau:** 20, 27 Mai, 3, 10, 17, 24 Mehefin, 1, 8 Gorffennaf.

**Amser a Lleoliad:** 7:00 - 8:00 o’r gloch yr hwyr, ar Zoom.

**Deall yr Ysgrythurau: Y Beibl**

Tiwtor: Arfon Jones

Yn allweddol i’r ffydd Gristnogol mae’r hyn a ddatguddir i ni drwy Air Duw, ac a gofnodir yn y Beibl. Drwy’r modiwl hwn, cynigir cyfle i’r sawl sy’n dilyn y modiwl gael dealltwriaeth ddyfnach o agweddau gwahanol o gynnwys y Beibl, ac astudio themâu penodol ohono.

**Dyddiadau:** 3, 10, 17, 24 Mehefin, 1, 8, 15, 22 Gorffennaf.

**Amser a Lleoliad:** 8:00 - 9:00 o’r gloch yr hwyr, ar Zoom.

**Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno yn y sesiynau uchod, a gellir dilyn un ohonynt yn unig, neu’r ddau.**


**Dyma’r modiwlau disgwyliedig ar gyfer cymhwyso fel pregethwyr cynorthwyol cydnabyddedig hefyd. Os mai dyna eich dymuniad, nodwch hynny wrth gofrestru.**

**I gofrestru ar gyfer y sesiynau hyn, neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â’r Parchedig Carwyn Siddall, Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau Undeb yr Annibynwyr Cymraeg: carwyn@annibynwyr.cymru**

Yr Adran Gydenwadol

MAI 16 2024 RHIF 168

# Cytûn yn Penodi Ysgrifennydd Cyffredinol Newydd



Yng nghyfarfod ymddiriedolwyr Cytûn (Eglwysi ynghyd yng Nghymru), fe gadarnhawyd penodi Dr Cynan Llwyd yn Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn o 1 Gorffennaf 2024. Mae'n olynu'r Parch. Siôn Brynach, oedd yn Brif Weithredwr Cytûn tan ddiwedd Ebrill ac sydd bellach yn offeiriad llawn-amser gyda'r Eglwys yng Nghymru.

Brodor o Aberystwyth yw Cynan ond bellach mae'n byw yn Nhrelluest (Grangetown) yng Nghaerdydd gyda'i wraig, Rachel, a'u dau fab. Mae'n ddiacon yn Eglwys Ebeneser, Caerdydd (Annibynwyr) ac yn un o arweinwyr Angor Grangetown, sy'n un o fentrau arloesi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Astudiodd y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae ganddo MPhil o Brifysgol Aberystwyth a PhD o Brifysgol Caerdydd, lle cyflawnodd ymchwil ar 'Athrawiaeth yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant yng ngwaith rhai o'r Piwritaniaid Cymreig a'u goblygiadau cymdeithasol yng Nghymru'.

Mae ganddo brofiad helaeth o weithio ag eglwysi ac elusennau yng Nghymru. Bu'n gweithio fel cynorthwyydd bugeiliol yn eglwysi San Mihangel a'r Santes Fair, Aberystwyth, cyn cael ei benodi'n Swyddog Plant a Phobl Ifanc, Llenyddiaeth Cymru. Mae wedi gweithio i Gymorth Cristnogol fel Cydlynydd Rhanbarthol De Cymru ac yna'n Bennaeth Dros Dro. Ar hyn o bryd ef yw Pennaeth Tearfund Cymru. Mae hefyd yn awdur, ac mae gwasg y Lolfa wedi cyhoeddi dwy nofel o'i eiddo i bobl ifanc; mae ei drydedd nofel ar fin ei chyhoeddi gan Lyfrau Broga.

Croesawyd Cynan yn gynnes gan aelodau'r cyfarfod. Dywedodd Cadeirydd Cytûn, y Barch. Jennifer Hurd, 'Mae'n braf iawn croesawu Cynan fel Ysgrifennydd Cyffredinol newydd Cytûn a'i longyfarch ar ei benodiad. Dw i'n edrych ymlaen at gydweithio tra dw i'n gwasanaethu fel Cadeirydd Ymddiriedolwyr Cytûn. Boed i Dduw fendithio gwaith Cynan efo'r eglwysi yng Nghymru er mwyn i ni nesáu at ein gilydd a chydweithio er mwyn teyrnas Dduw.'

Ymatebodd Cynan, 'Mae'n anrhydedd ac yn fraint cael fy mhenodi'n Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn. Edrychaf ymlaen at gydweithio â'r eglwysi yng Nghymru wrth i ni geisio ewyllys Duw gyda'n gilydd, y byddwn "yn un fel dŷn ni yn un" (Ioan 17:22). Mae'n gyfnod cyffrous a heriol i ni fel eglwysi a gweddïaf y tyfwn yn agosach at Dduw ac at ein gilydd dros y cyfnod sydd i ddod.'

**Cytûn yn y digwyddiadau cenedlaethol dros yr haf**

Os byddwch yn mynd i gyfeiriad Eisteddfod yr Urdd ym Meifod ddiwedd y mis, cofiwch alw i mewn ym Mhabell yr Eglwysi ar y maes. Bydd llu o weithgareddau ar gael i blant, a digon o adnoddau i'w prynu. Bydd fferins a diodydd am ddim i blant hefyd, a chyfle am sgwrs. Croeso cynnes i bawb.

Byddwn hefyd yn y Sioe Fawr ym mis Gorffennaf ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd. Oherwydd mai maes bychan iawn yw Parc Angharad, lle mae'r Eisteddfod yn cael ei chynnal eleni, byddwn hefyd yn defnyddio eglwys Santes Catrin ynghanol y dre ar gyfer ein lluniaeth ac ar gyfer yr oedfaon a'r digwyddiadau.

Mae angen gwirfoddolwyr arnom i weini paneidiau ac estyn croeso. Bydd cyfarfod i drefnu ar gyfer yr Eisteddfod yn Eglwys Santes Catrin, Pontypridd, nos Lun, 10 Mehefin, am 7 o'r gloch. Mae croeso i eglwysi'r sir ac ardal Caerdydd i'r cyfarfod hwn, er mwyn inni baratoi i groesawu pobl atom yn ystod mis Awst.

# Cadeirydd newydd i Bwyllgor Cenedlaethol Cymorth Cristnogol Cymru

Cyhoeddwyd bod y Parch. Andrew Sully, Arweinydd Ardal Bro Gorllewin Caerdydd, wedi ei ddewis yn gadeirydd newydd Pwyllgor Ymgynghori Cenedlaethol Cymorth Cristnogol Cymru.

Cymorth Cristnogol ydy asiantaeth ddyngarol a datblygiad rhyngwladol eglwysi Ynysoedd Prydain ac Iwerddon, ac mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn gwasanaethu fel corff cynghori i'w Bwrdd Ymddiriedolwyr, yn ogystal ag ymgysylltu ag eglwysi, cefnogwyr a sefydliadau eraill yng Nghymru er mwyn cefnogi gwaith yr elusen mewn cymunedau bregus ledled y byd.

Mae Andrew, a fu'n gwasanaethu'n ddiweddar fel Pennaeth Dros Dro i'r mudiad yng Nghymru, yn gadeirydd Grŵp Cymorth Cristnogol Eglwys Gadeiriol Llandaf a bydd hefyd yn ymuno â Bwrdd Ymddiriedolwyr Cymorth Cristnogol.

Cafodd Andrew ei hyfforddiant yng Ngholeg Queen's, Birmingham, ynghyd â'i wraig, Mary, sy'n Esgob Llandaf – ac mae'r ddau wedi bod yn gefnogwyr brwd i Gymorth Cristnogol ers blynyddoedd lawer.

Cyn ymgartrefu yn Llandaf, bu Andrew yn offeiriad, ac mae wedi gweithio ym mhump o chwe esgobaeth Cymru. Yn ystod y cyfnod hwnnw, fe fyddai'n aml yn derbyn rôl swyddog ecwmenaidd, yn hyrwyddo'r gydberthynas rhwng eglwysi o wahanol enwadau. Cafodd secondiad am gyfnod gyda Cytûn/ Eglwysi Ynghyd yng Nghymru fel swyddog maes yn y gogledd.

Mae Andrew wedi bod yn weithgar ar ran Cymorth Cristnogol dros y 30 mlynedd ddiwethaf, gan gymryd rhan mewn ymgyrchoedd allweddol a gweithgareddau codi arian. Roedd y rhain yn cynnwys seiclo o Lundain i Copenhagen ar gyfer trafodaethau COP yn 2009, o Lundain i Baris ac ar hyd Lôn Las Cymru. Yn fwy diweddar, bu'n cerdded cestyll Cymru yn y gogledd a llwybr pererinion o Landaf i Ben-rhys ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol 2024.

Dywedodd Andrew, sy'n olynu'r Parch. Nan Powell-Davies fel Cadeirydd:

> Fy ngobaith ydy dod â'm gwybodaeth a'm profiad o Gymru a'i chymunedau i'r rôl hon. A dwi'n edrych ymlaen at gefnogi Mari a thîm Cymorth Cristnogol Cymru, yn ogystal â bwrdd a staff ehangach Cymorth Cristnogol. Mae'r dasg o ddileu tlodi mor berthnasol ag erioed yn y cyfnod hwn o argyfwng hinsawdd, ac mae Cymorth Cristnogol yn allweddol i bontio rhwng cymunedau sydd dan dlodi yn fyd-eang ac eglwysi yng Nghymru a gweddill y Deyrnas Unedig.

Dywedodd Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru:

> Daw Andrew â gwybodaeth helaeth am Gymru a'i chymunedau i'r rôl hon. Rydyn ni wrth ein bodd ein bod yn gallu parhau i weithio gydag e i ymgysylltu â chefnogwyr, eglwysi a mudiadau eraill er mwyn codi arian ac ymgyrchu yn ein hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi ac anghyfiawnder yn fyd-eang.



Daw'r datganiad ar drothwy Wythnos Cymorth Cristnogol, 12–18 Mai, pan fydd cannoedd o wirfoddolwyr a chymunedau'n paratoi i weithredu ar dlodi yn fyd-eang, drwy amryw o heriau a digwyddiadau cymunedol i godi arian.

# Dydd Gweddi'r Byd



Cafwyd cyfarfod buddiol iawn o Is-bwyllgor Cymraeg (Rhyngenwadol) Dydd Gweddi'r Byd, dydd Mercher, 24 Ebrill, yn festri Capel y Garn, Bow Street, ac aml un ar Zoom. Anfonwyd ein cyfarchion cynhesaf at y Trysorydd, Margaret Morgan, gan ddymuno gwellhad llwyr a buan iddi. Fe welwyd ei heisiau yn fawr iawn.

Daeth tymor Miriam Lewis fel Llywydd i ben ar ôl iddi ddod i'r adwy ers blynyddoedd maith. Mae ein gwerthfawrogiad yn enfawr iddi am ei harweiniad, ei doethineb a'i dyfalbarhad, a daeth Llywydd newydd, Rhianwen Huws Roberts, i'r gadair – dymunwn pob rhwyddineb iddi i'r dyfodol.


Bydd gwybodaeth am y grantiau sydd yn cael eu cymeradwyo a'u cefnogi yn dod yn fuan, ynghyd â gwybodaeth am y cynadleddau a gynhelir yn ystod Tachwedd 2024.

*Parchg Carys Ann a'r Parchg Beti-Wyn James*
*Swyddogion Cyhoeddusrwydd*

# *Gair Duw ar Waith*

## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 24**
**Dweud y stori**

**Darlleniad: Actau 2:1–4; 22–36 (Sulgwyn)**

### Gweddi

Nefol Dad, yr hwn a roddaist i ni iaith a geirfa, helpa ni i'w defnyddio i rannu'n stori ag eraill, waeth pa mor ansicr neu ddihyder bynnag y teimlwn weithiau. Maddau i ni am gloncan am bopeth ond am ein ffydd. Amen.

### Cyflwyniad

Bydd llawer yn cyflwyno Llyfr yr Actau fel dogfen i grynhoi bwrlwm yr Eglwys Fore ar dir yr Iddewon ac oddi cartref mewn gwledydd eraill. Ceir yn y gwaith grynodeb o bregethu'r apostolion a nodweddion sylfaenol dysgeidiaeth yr Eglwys. Cyfeirir at waith cenhadol Paul a Pedr, a bod y ddau fel ei gilydd yn arweinwyr cyfartal yng ngwaith yr Eglwys Fore. Fel yn hanes Philip yn yr Actau, Pennod 8, roedd yr apostolion yn hyderus i ddweud eu stori a rhannu eu dealltwriaeth o fywyd Iesu a'u profiad hwy o'r Iesu atgyfodedig. Dyna waith a braint yr eglwys ar draws y canrifoedd a'r cyfandiroedd, boed yn genhadaeth yn enw corff o Gristnogion neu'n ddyhead unigolyn. Er bod gan lawer y ddawn i bregethu, mae angen llawer mwy o bobl i ddatblygu'r modd a'r cyfleoedd i sgwrsio am Iesu wrth bobl eraill.

### Myfyrdod

Mae'n nodwedd naturiol i bawb 'ddweud ei stori' neu 'adrodd yr hanes'. Mae'n amhosibl peidio â chlywed ambell sgwrs rhwng pobl eraill mewn mannau cyhoeddus, wrth eistedd ar fws neu fwyta mewn caffi, er enghraifft. Yn amlach na pheidio, bydd y sgwrs yn sôn am brofiad personol neu hanes rhywun o fewn cylch ein cydnabod. Bydd y sgyrsiau hyn yn cyflwyno pob math o droeon trwstan bywyd, ond anaml y bydd yr hanes yn sôn am brofiad ysbrydol. Bydd rhai'n frwdfrydig yn cynnig sylw ar chwaraeon neu wleidyddiaeth, ond prin am fywyd eglwysig. Pa mor aml y byddwn yn rhannu ein profiadau a'n hargyhoeddiadau ysbrydol ag unrhyw un arall, neu'n sôn am ddigwyddiadau cyffrous yn yr eglwys?

Bydd rhyfeddod y Pentecost yn ysgogi dwyn tystiolaeth yr eglwys, a bydd eglwysi mewn rhai ardaloedd yn cael mynediad i ysgolion gyda chynllun 'Agor y Llyfr'. Am ddegawd a mwy, defnyddiwyd festri'r Tabernacl, Caerdydd, fel man i lwyfannu 'Drama'r Nadolig', sef cyflwyniad ar feim gan actorion byw i ddweud hanes y Nadolig. Gwelwyd hyd at 150 o bobl yn cydweithio i gynnig tua 200 o gyflwyniadau theatrig yn y festri yn dweud stori'r Nadolig. Mae'n gyfle i bawb wneud rhywbeth, ac os nad oes gennym yr hyder i gerdded y rhan ar lwyfan gallem fod yn gweithio fel un o'r stiwardiaid am ddiwrnod. Bydd yr actorion yng Nghaerdydd yn cynrychioli llu o eglwysi, a bellach mae cylchoedd eraill yng Nghymru yn trefnu eu cyflwyniadau hwythau, gan ddefnyddio sgript sylfaenol y fenter yng Nghaerdydd. Mae yna dlodi enbyd ymhlith y cenedlaethau iau yn ein cymdeithas o destun sylfaenol ein ffydd. Dweud y stori sy'n bwysig, nid safon yr actio!

Aeth y dystiolaeth bersonol yn dawedog yng Nghymru, fel pe bai rhannu ein profiadau ysbrydol yn peri cywilydd neu'n weithgarwch anffasiynol. Tybed? Nid dysgu sgript neu actio drama yw'r hyn y gofynnir i ni ei wneud, ond bwrw ati i sôn am ein profiadau ysbrydol yn ein geiriau naturiol ein hunain. Beth amdani yn nerth y Sulgwyn?

### Gweddi

Arglwydd Iesu, diolch am bob un sy'n enwau cyfarwydd a rannodd eu profiad ohonot, am bob Paul a Pedr, pob pregethwr a chenhadwr. Diolchwn am emynwyr a beirdd y gorffennol, am gerddorion ac artistiaid, dramodwyr ac awduron a ddefnyddiodd eu doniau i ddweud eu stori. Helpa ni i ddweud ein stori ni, ac i helpu eraill i glywed y newyddion da yn ein geiriau ein hunain. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried

1. Ai realiti neu stori ddychmygol yw hanes y Pentecost?
2. Sut fyddech chi'n helpu rhywun arall i ddeall beth yw hanfod hanes y Pentecost?
3. Pa emyn sy'n sôn am y Sulgwyn sy'n eich cyffroi fwyaf?
4. Os nad ydych yn gyfarwydd â chynllun 'Agor y Llyfr', holwch prif swyddfa eich corff enwadol am arweiniad. Gellir defnyddio'r adnodd mewn oedfa neu wasanaeth ysgol, neu oddi ar gefn treiler ar fore Sadwrn.
5. Rhannwch â'ch grŵp trafod un o'ch profiadau ysbrydol mwyaf cyffrous.

S4C ***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 19 Mai, am 7.30yh**
***Cymorth Cristnogol***
Bydd Lowri Morgan yn cwrdd ag arweinydd Cymorth Cristnogol yng Nghymru, Mari McNeill, i ddysgu sut mae'r elusen yn ymgyrchu i godi arian a gweithio'n rhyngwladol i godi pobl allan o dlodi. Cawn fwynhau gwledd o ganu mawl o Gapel y Tabernacl, Efail Isaf.

BBC radio cymru ***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 19 Mai, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Geraint Rees

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 19 Mai, am 12yp**
Oedfa dan ofal Bronwen Morgan, Llangeitho

# PROSIECT DENMAN 2024

Eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu podlediad / hysbyseb / fideo / unrhyw beth cyfrwng digidol byr (hyd at 5 munud o hyd) neu waith celf ar y thema:

## Ein hysgol Sul: 'Dysgu am Iesu.'

Roedd Iesu'n dysgu'r bobl am Dduw drwy gyfrwng damhegion. Sut ydych chi'n dysgu am Iesu Grist a'i neges?

Anfoner eich cynnyrch digidol at rhodri@annibynwyr.cymru a'r cynnyrch celf at Elinor yn Nhŷ John Penri, 5 Axis Court, Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ erbyn dydd Iau, 13 Mehefin 2024.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yn Nantgarw ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

# Caneuon Coll y Werin – Lleuwen

Cyfareddol, ysbrydoledig ... Dewiswch chi, ond dyna ddau air addas i ddisgrifio nos Lun 22 Ebrill yng nghapel y Priordy pan ddaeth yr unigryw Lleuwen Steffan a'i llais melfedaidd diymdrech i wneud cyflwyniad dan yr enw *Tafod Arian* sy'n seiliedig ar emynau coll y werin. Braf gweld cynulleidfa dda yn cynnwys llawer o bobl ifanc a phlant wedi dod ynghyd. Roedd nifer o wynebau newydd ac ambell unigolyn di-Gymraeg wedi ymuno hefyd i'w chlywed yn trafod y pwnc drwy gefnogaeth cyfieithu.




### Archif sain

Plannwyd hedyn y prosiect hwn pan ddaeth Lleuwen ar draws casgliad o recordiadau sain o'r oes a fu sydd yng ngofal Amgueddfa Werin Sain Ffagan.

Roedd y traciau hynny'n cynnwys lleisiau unigolion yn cofnodi rhai o'r emynau coll; ambell lais yn mynd i hwyl, un arall yn canu ac arall yn eu llefaru'n angerddol. Wrth gyflwyno'r rhain i ni, byddai Lleuwen yn cyfoethogi'r traciau hynny mewn modd cyfoes drwy ychwanegu ei llais ei hun gan ddefnyddio ambell offeryn yn gefndir iddynt, y cyfan yn asio'n berffaith a'r gorffennol, a'r presennol yn un.

### Perthynas


Bydd rhai ohonoch yn gwybod bod gennyf ddiddordeb personol iawn yn y digwyddiad hwn fel wyres i un o'r lleisiau yma sef David Griffiths, Pontarlyb, Llanfynydd. Cefais fraint o'r mwyaf clywed cyflwyniadau cynharach Lleuwen pan oedd yn holi am ganiatâd y teulu i ddefnyddio'i lais. Roedd y profiadau cyntaf hynny'n emosiynol ac yn cyffwrdd â'r galon a gallaf ond dweud bod y cyflwyniad diweddaraf hwn yn y Priordy wedi rhagori eto ar hynny.

Mae taith Lleuwen yn parhau a hynny yn rhyfeddol am ddim. Diolchodd Lleuwen am nawdd gan Undeb Annibynwyr Cymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Bedyddwyr Gogledd Ddwyrain Cymru. Os nad ydych wedi achub ar y cyfle i'w gweld yn barod, yna ewch ati, da chi.

**Mwynwen Jones**
*(Allan o* Papur Priordy*, Mai 2024)*

# Gwaith diflino

Mae arwain eglwys yn gyfrifoldeb eithriadol sy'n cynnwys nid yn unig arweiniad ysbrydol ond hefyd yr heriau gweinyddol a logistaidd sy'n dod gyda rheoli gofod cymunedol. Mae arweinwyr eglwysig yn aml yn canfod eu hunain yn llywio tirweddau cymhleth, yn enwedig pan fo aelodaeth yn lleihau, cyllid yn prinhau, a'r cyfleusterau angen gwaith atgyweirio sylweddol. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae arweinwyr eglwysig yn parhau i weithio'n ddiflino, gan anelu at greu gofod cymunedol croesawgar a pharhaus ar gyfer addoli a chymdeithasu. Mae'r erthygl hon yn archwilio'r anawsterau y mae arweinyddiaeth eglwysig yn eu



hwynebu a'u hymdrechion arloesol i lywio eu cynulleidfaoedd trwy gyfnod anodd wrth gynnal gweledigaeth gadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

### Gostyngiad aelodaeth

Un o'r tasgau mwyaf brawychus i arweinwyr yr eglwys heddiw yw rheoli gostyngiad mewn aelodaeth. Gall y duedd hon ddeillio o wahanol ffactorau, gan gynnwys shifftiau demograffig, newid agweddau diwylliannol tuag at grefydd, neu hyd yn oed gwrthdaro mewnol yn yr eglwys. Wrth i lai o bobl fynychu'r eglwys, gall yr ymdeimlad o gymuned wanhau, gan arwain at erydu pellach. Rhaid i arweinwyr yr eglwys felly weithio'n ddiwyd i ailgysylltu â chyn-aelodau yn ogystal ag ymgysylltu â rhai newydd ar yr un pryd. Gall hyn gynnwys cynnal digwyddiadau allgymorth, gwella presenoldeb ar-lein yr eglwys, a meithrin amgylchedd mwy cynhwysol i ddenu cynulleidfa ehangach.

### Heriau ariannol

Mae gostyngiad mewn aelodaeth yn aml yn arwain at heriau ariannol. Gyda llai o bobl yn cyfrannu at gronfeydd yr eglwys, gall y gyllideb ddod yn straen, gan ei gwneud hi'n anodd talu costau hanfodol fel cyflogau, cyfleustodau a chynnal a chadw. Rhaid i arweinwyr eglwysig fod yn ddyfeisgar wrth ddod o hyd i ffyrdd o ychwanegu at eu hincwm, boed hynny trwy ddigwyddiadau codi arian, ceisiadau grant, neu bartneriaethau â busnesau a sefydliadau lleol. Gall hyn hefyd olygu penderfyniadau anodd, megis gohirio prosiectau nad ydynt yn hanfodol, i gyd a phara i gynnal awyrgylch croesawgar i'r gynulleidfa.

### Cynnal adeiladau

Mae llawer o eglwysi mewn adeiladau hŷn sydd angen eu cynnal a'u cadw'n gyson. O foeleri sy'n methu i systemau trydanol hen ffasiwn, gall y materion hyn

*parhad ar y dudalen nesaf*

# Golygyddol

## HEL MEDDYLIAU

### SAWL MODRYB (AC EWYTHR)

Roedd, ac y mae, gen i sawl modryb ac ewythr yn perthyn drwy waed, a'm meddwl yn uchel o bob un ohonyn nhw. Ond mae gen i, fel sawl un arall mae'n siŵr, ewythrod a modrybedd answyddogol

Dowch yn ôl i'r flwyddyn 1964 – blwyddyn fy ngeni i – a'r flwyddyn y symudasom ni fel teulu o Nefyn i Drefriw yn Nyffryn Conwy pan ddechreuodd fy nhad ei weinidogaeth ar eglwys fywiog Ebeneser yn y pentref hwnnw. Y gweinidog ar eglwys Bresbyteraidd Peniel yn y pentref ar y pryd oedd y Parchedig R. Ithel Williams – gweinidog cydwybodol a bardd da. Ond gwaetha'r modd, dyn gwan ei iechyd oedd Ithel Williams erbyn hynny, a bu'n rhaid iddo ymddeol yn gynnar yn niwedd y chwedegau, a symudodd ef a'i briod Gwen i fyw i Ruddlan yn Nyffryn Clwyd. Gwaetha'r modd, bu farw Yncl Ithel yn 1970. Yr oedd hefyd yn frawd i'r bardd W. D. Williams, awdur yr englyn pryd bwyd enwog 'O Dad yn deulu dedwydd'.



#### Anti Gwen

Fel y cyfeiriais yn barod roedd gan Ithel Williams wraig o'r enw Gwen, neu Anti Gwen i mi ac i lawer arall. Disgwyliech i aelodau Peniel (ac Ebeneser) ei hadnabod a'i galw'n 'Mrs Williams gweinidog' neu 'Mrs Ithel Williams', oherwydd dyna fyddai arfer y cyfnod, yn arbennig i wraig ganol oed. Ond nid felly yr oedd hi – Anti Gwen oedd hi i bawb. Pleser i mi, wrth droi pethau'n fy meddwl, yw dwyn i gof gwraig oedd yn ymgorfforiad o anwyldeb, doethineb, cysur, hiwmor iach a chlust gyfrinachol i wrando cwyn sawl un. Da cofio hefyd ei bod hi'n gerddor a phianydd medrus iawn, ac yn abl mewn sawl cyfeiriad arall. Bu fyw hyd flynyddoedd cyntaf y mileniwm newydd, a do, bu inni gadw mewn cyswllt â hi, a hithau a ninnau hyd y diwedd. Ac er iddi hi aros yn Rhuddlan, bu i ni deithio yno'n gyson naill o Gemaes ym Môn neu o Gyffordd Llandudno wedyn.

#### Ei Ffydd

Roedd hi'n gadarn a chyson ei ffydd, a'r graig 'yn sownd o dan ei thraed,' a hynny drwy gyfnodau anodd iawn yn ei bywyd. Oedd, roedd ei ffydd yn ddiysgog yng Nghrist a gwyddai i bwy y credai. Ond roedd ei ffydd hefyd yn esgor ar weithredoedd cryf iawn o gariad a thosturi.

#### Cwestiwn Syml

Tybed petae yna fwy o Anti Gwens yn yr hen fyd yma y byddai yna well siâp arno fo? Ystyriwch y cwestiwn plîs. Gyda llaw, fyddai'n amserol i ni gofio englynion cofiadwy Ithel Williams i ŵyl y Diolchgarwch. A dweud y gwir, mi fedrem eu defnyddio gydol y flwyddyn:

Am gynhaeaf y llafur – a daliad
Y medelwyr prysur;
Am ramant y porthiant pur
I reidiau pob creadur:

Rhoddwn ni i Ti, ein Tad
Heddiw ŵyl o addoliad.

Am fwthyn ac am Fethel – am eiriau,
Am orig fach dawel,
Am wenau câr, am win cêl
Y nos i galon isel:
Rhoddwn ni i Ti, ein Tad
Heddiw helaeth addoliad.

Am degwch byw cymdogol – a thawel
Gynorthwyo brawdol,
A mwynder rhai'n mynd ar ôl
Hunllef dioddef dyddiol:
Rhoddwn ni i Ti, ein Tad,
Heddiw wylaidd addoliad.

Am gyfaill, am a gofia – y di-log
A'r dilwydd eu gyrfa,
Pryderon cymdogion da,
Newyn y di-gynhaea':
Rhoddwn ni i Ti, ein Tad,
Heddiw elw'n haddoliad.

Am gytgan brwd i'w ganu, – am luniau,
Am lennyrch i'w cyrchu,
Awr o gellwair, a gallu
Anghofio'n helyntion lu:
Rhoddwn ni i Ti, ein Tad,
Heddiw hwyliog addoliad.

Uwch diddanwch dy ddoniau – dyro in'
Dy ras, lôr ein tadau,
Rhag dibrisio'r Rhodd orau
Rho help i edifarhau:
A faddeui Di, O Dad,
Eiddilwch ein haddoliad?

**Iwan Llewelyn**

O.N. Gyda llaw roedd Anti Gwen yn hen- fodryb i'r Parchedig Robert Parry, gweinidog presennol Lerpwl.

# Gwaith diflino – parhad

fod yn gostus ac yn cymryd llawer o amser i'w trwsio. Rhaid i arweinwyr yr eglwys flaenoriaethu atgyweiriadau i sicrhau diogelwch a chysur eu cynulleidfaoedd a dal i gydbwyso'r anghenion hyn â chyfyngiadau ariannol. Gallai hyn olygu trefnu diwrnodau gwaith gwirfoddolwyr, ceisio rhoddion o ddeunyddiau, neu weithio mewn partneriaeth â masnachwyr lleol ar gyfer gwasanaethau rhatach. Yr her yw cynnal cymeriad hanesyddol yr eglwys a dal i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ymarferol ac yn hygyrch.

Ar adegau o frwydro, mae arweinwyr eglwys yn aml yn gweld y gall dyfnhau eu hymwneud â'r gymuned esgor ar ganlyniadau cadarnhaol. Trwy gynnig gwasanaethau a rhaglenni sy'n mynd i'r afael ag anghenion lleol, gall eglwysi ddod yn asedau gwerthfawr i'w cymdogaethau. Gallai hyn gynnwys cynnal ymgyrchoedd bwyd, darparu lle ar gyfer cyfarfodydd cymunedol, neu bartneru ag ysgolion lleol ar gyfer rhaglenni addysgol. Drwy agor eu drysau i'r gymuned ehangach, gall arweinwyr eglwysig adeiladu pontydd sy'n meithrin perthnasoedd parhaol ac yn annog mwy o gyfranogiad yng ngweithgareddau'r eglwys.

#### Creu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

Er gwaethaf yr heriau, rhaid i arweinwyr eglwysig gynnal gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn golygu datblygu strategaethau i adfywio'r eglwys, denu aelodau newydd, a sicrhau cynaladwyedd y gofod cymunedol. Mae arweinwyr yn aml yn gweithio i greu ardaloedd modern, aml-swyddogaethol a all wasanaethu amrywiaeth o ddibenion, o wasanaethau addoli i ddigwyddiadau cymunedol. Trwy wneud hynny, eu nod yw adeiladu eglwys a fydd yn sefyll fel ffagl gobaith a chymdeithas am genedlaethau i ddod.
I gloi, mae gwaith arweinyddiaeth eglwysig yn gymhleth ac yn rhoi boddhad. Trwy eu hymroddiad, creadigrwydd, ac ymrwymiad i'w cynulleidfaoedd, mae arweinwyr eglwysig yn parhau i arwain eu cymunedau trwy gyfnodau anodd, gan sicrhau bod yr eglwys yn parhau i fod yn lle gobaith, cymdeithas, a ffydd barhaus.

*(Oddi ar wefan eglwys Seion, Drefach)*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Rhaglen y Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Dwyrain Morgannwg 2024

*Oni nodir yn wahanol, cynhelir y cyfarfodydd ar gampws Prifysgol De Cymru, Trefforest, Pontypridd*

## DYDD IAU, 11 Gorffennaf 2024

**1.30** **CYNHADLEDD 1 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg T. Jeffrey Williams
Defosiwn yng ngofal Parchg Owain Llŷr Evans

**2.00** Ymddiheuriadau am absenoldeb
Cyflwyno Adroddiad Undeb Dwyrain Dinbych a Fflint 2023 (y Llyfr Gwyrdd)
Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol 2025 Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd
Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol

**3.00** Te a chacen a chroeso
Croesawu a derbyn ymwelwyr

**4.00** **Cyfarfod Heddwch ***
Cadeirydd: Parchg Guto Prys ap Gwynfor
Sesiwn yng ngofal y Parchg Ron Williams

**5.30** Egwyl

**6.00** Swper

**7.30** **Noson yng nghwmni Delwyn Siôn a'u gyfeillion***

## DYDD SADWRN, 13 Gorffennaf 2024

**9.30** Defosiwn yng ngofal Mr Emlyn Davies *

**9.45** **Cyflwyniad eglwysi ***
Llanfair Pen-rhys, Tabernacl Efailisaf a'r Angor Grangetown

**10.45** Te/coffi

**11.15** **CYNHADLEDD 4 ***
Cadeirydd: Mr Dafydd Roberts
Emyn
Gweddi: Parchg Noel Davies
Casgliad i Gymorth Cristnogol
Anerchiad y Llywydd
Emyn
Y Fendith

**12.30** Cinio ac Ymadael

*Dangosir cyflwyniadau Cwpan Denman yn ystod y cynadleddau*
** Caiff y sesiynau hyn eu ffrydio'n fyw ar wefan annibynwyr.cymru*

## DYDD GWENER, 12 Gorffennaf 2024

**9.30** **CYNHADLEDD 2 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg T. Jeffrey Williams
Defosiwn yng ngofal Parchg Owain Llŷr Evans

**10.00** Etholiadau:
- 2 i wasanaethu ar y Cyngor am 3 blynedd
- Hyd at 3 i wasanaethu ar y Pwyllgor Gweinyddol am 3 blynedd
- cyfreithiwr ac archwiliwr am y flwyddyn

Adroddiad y Trysorydd
Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddol
Y Cyfansoddiad
Apêl Ffynhonnau Byw Cymorth Cristnogol – diweddariad

**11.00** Te/coffi

**11.30** Adroddiad y Cyngor a'i Adrannau

**12.00** Anerchiad gan Parchg Susan Durber, Llywydd Cyngor Eglwysi'r Byd*
'*Faith, unity and mission in Wales 2025: encouragement from Nicaea 325*'
Cadeirydd: Parchg T. Jeffrey Williams

**1.00** Cinio

**2.00** **CYNHADLEDD 3**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg T. Jeffrey Williams
Penderfyniadau:
Adroddiad y Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau *
Derbyn gweddill cofnodion y *Llyfr Glas*
Unrhyw Fater Arall
Y Fendith

**3.30** Te/coffi

**4.00** Cyfarfod Hanes *
Sgwrs gan Richard Hughes ar fywyd a gwaith Rhys Nicholas (1914–96)

**5.00** Egwyl

**5.30** Swper

**7.30** **OEDFA O FAWL** yn Tabernacl, Efailisaf *
Llywydd: Parchg T. Jeffrey Williams
Galwad i addoli
Emyn
Darllen:
Gweddïo:
Gweddi'r Arglwydd
Casgliad i Gymorth Cristnogol
Emyn
Coffáu'r rhai a fu farw. Gweddi: Parchg Allan Pickard
Dymuno'n dda i weinidogion a ymddeolodd
Croesawu gweinidogion newydd
Cyflwyno tystysgrifau hyfforddiant
Emyn
Pregeth: Parchg Euron Hughes
Emyn
Y Fendith

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*